**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

15 Tachwedd 2018

Annwyl Julie

**Craffu ar reoliadau sy'n deillio O Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Parthed ein gohebiaeth a'n cyfarfodydd diweddar, rwy'n ysgrifennu i ofyn am y diweddaraf am y sefyllfa ynghylch craffu ar reoliadau i gywiro diffygion yng nghyfraith y DU o ganlyniad i'n hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.

Mewn llythyr at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 2 Tachwedd, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff tua 55 o reoliadau ymadael eu gosod rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror, ac y caiff tua 150 o reoliadau eu gosod yn y Senedd i ddeddfu mewn meysydd datganoledig (yn ddarostyngedig i unrhyw newid mewn amgylchiadau). Byddai'n ddefnyddiol, yn ogystal â chadarnhau'r ffigurau hyn, pe gallech:

- gadarnhau bod Gweinidogion Cymru wedi oedi rhag gosod unrhyw un o'r 55 o reoliadau yn llwyr oherwydd cyd-ddibyniaethau gyda deddfwriaeth a wneir gan y DU sydd wedi'i hoedi ei hun;
- nodi faint o'r 150 o reoliadau a fydd yn ddarostyngedig i ofynion Rheol Sefydlog 30A;
- rhoi syniad bras o'r pwysau sy'n debygol o godi dros y misoedd nesaf yn achos pob un o'r 205 o reoliadau, gan nad yw'r rhai sydd wedi'u gosod gerbron Senedd y DU yn ddarostyngedig i'r protocol y gwnaethom gytuno arno'n ddiweddar (byddem yn croesawu'r math o wybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddar gan y Gwir Anrhydeddus Andrea Leadsom AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin i Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin (ESIC) ar 26

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Hydref a chan Mr Chris Heaton-Harris AS, yr Is-ysgrifennydd Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi ar 25 Hydref);

- rhoi syniad o faint o reoliadau y bydd angen i Weinidogion Cymru eu gwneud i gywiro diffygion yn rheoliadau yr UE sy'n uniongyrchol gymwys a'r amserlen ar gyfer eu gwneud, yn dilyn eich llythyr ar 20 Gorffennaf a fy nghais yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Hydref;
- nodi a fydd Llywodraeth y DU yn gwneud unrhyw offerynnau mewn meysydd datganoledig i gywiro diffygion yn rheoliadau yr UE sy'n uniongyrchol gymwys, ac os felly, faint ohonynt a'r amserlen debygol ar gyfer eu gwneud (ac a yw'r rhain yn cael eu cyfrif ymhlith y 150 o reoliadau y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt).

Er ein bod yn deall yr anawsterau sy'n bodoli o ran cywiro'r llyfr statud, rydym yn parhau i bryderu, yn ogystal â'r ffaith nad yw Gweinidogion Cymru wedi gosod unrhyw reoliadau ymadael, ond hefyd i ba raddau y mae Gweinidogion y DU yn gweithredu mewn meysydd datganoledig.

Yn arbennig, byddai'n ddefnyddiol cael eich sicrwydd na fydd y 150 o reoliadau y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt yn newid polisi ac y byddant yn cael eu cyfyngu i wneud cywiriadau i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithiol ac at ddibenion effeithlonrwydd gweinyddol, fel yr amlinellir yn y cytundeb rhynglywodraethol.

Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y gwneir penderfyniadau i ganiatáu i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig, yn dilyn ymlaen o'r wybodaeth y darparodd Llywodraeth y DU i ESIC ar 26 Hydref. Yn benodol, byddem yn croesawu gwybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r broses honno, yn darparu deunydd i'w gynnwys mewn memoranda esboniadol i hwyluso gwaith craffu gan Senedd y DU, yn enwedig o ystyried ei bod yn anghyfarwydd â'r setliad datganoli.

Yn olaf, yn ystod ein cyfarfod yr wythnos hon, fe wnaethom ystyried datganiadau ysgrifenedig sy'n cael eu paratoi o dan Reol Sefydlog 30C. Nid oedd yn glir pa ddarpariaethau o'r rheoliadau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi cydsynio â nhw (yn enwedig yn ymwneud â rheoliadau morol a thybaco). Rydym yn credu, er budd tryloywder deddfwriaethol, y byddai'n briodol i ddatganiadau ysgrifenedig yn y dyfodol nodi'r darpariaethau perthnasol y mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio â nhw, mewn ffordd sy'n debyg i'r dull gweithredu sydd fel arfer yn cael ei fabwysiadu yn achos Memoranda Cydsyniad Offeryn Deddfwriaethol a Statudol.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.